

Cydymffurfiaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) â'r Safonau Ionawr 2017

Cynhyrchwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

Safonau	Gwybodaeth
149, 155, 161, 166	Mae Hysbysiad Cydymffurfio WCVA (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i WCVA gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar fewnwyd staff WCVA yn ogystal ag ar wefan WCVA.
141, 150, 156, 162	Mae Polisi Cwynion WCVA yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion, gan gynnwys y broses gwyno a'r weithdrefn y bydd WCVA yn ei dilyn wrth ystyried cwynion.
145, 147, 148, 151, 152, 153, 157, 159, 163, 164	<p>Rydym yn sicrhau goruchwyliaeth o'r Safonau y mae'n rhaid i WCVA gydymffurfio â hwy yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae adroddiad misol yn cael ei baratoi ar gyfer Uwch Dîm Rheoli WCVA, ac adroddiad chwarterol ar gyfer Pwyllgor Archwilio a Risg WCVA. Rydym yn datblygu fframwaith asesu effaith ar y Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Llundain Polisi.• Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn adroddiad blynyddol am y cwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'n cydymffurfiaeth â'r Safonau.• Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.• Mae Hyrwyddwr y Gymraeg wedi'i benodi i Fwrdd WCVA er mwyn cefnogi gweithredu'r Safonau ar lefel y Bwrdd, ac i gefnogi staff, ac anogir pob tîm i benodi Hyrwyddwr y Gymraeg (gwirfoddol) er mwyn cefnogi gweithredu'r Safonau ar draws y mudiad.• Mae pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg pan maent yn ymuno â WCVA, gyda sesiwn adnewyddu bob dwy flynedd..• Paratowyd canllaw i helpu staff ddeall sut i chwarae eu rhan er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan roi ystyriaeth benodol at safonau cyflenwi gwasanaethau. e.e. wrth wahodd unigolyn i gyfarfod, wrth gynnal cyfarfodydd/digwyddiadau, ateb y ffôn ayb.• Mae cyfres o ganllawiau penodol ar gael i staff i hwyluso dealltwriaeth o'r disgwyliadau cydymffurfio a'r drefn cydymffurfio â'r safonau gweithredu.• Rydym yn cofnodi sgiliau Cymraeg ein staff gan gynnwys lefel y sgiliau. Rydym yn cynnal archwiliad blynyddol o sgiliau Cymraeg ein staff.• Mae polisi yn ei le i gadw cofnod o nifer y swyddi gwag a newydd a glustnodwyd fel swyddi sy'n gofyn bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol - bod angen dysgu sgiliau Cymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd - bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.• Rydym yn datblygu fframwaith i gofnodi nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg a chanran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.
154, 158, 160, 166	Bydd WCVA yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth WCVA â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.